

MORGAN ap HYWEL (fl. 1210-48), arglwydd Cymreig arglwyddiaeth Gwynllwg neu Gaerlleon-ar-Wysg

Enw: Morgan ap Hywel

Plentyn: Gwerful ferch Morgan ap Hywel

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: arglwydd Cymreig arglwyddiaeth Gwynllwg neu Gaerlleon-ar-Wysg

Maes gweithgaredd: Perchnogaeth Tir; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig

Awdur: Robert Thomas Jenkins

(deliad i ieirll **Caerloyw**) disgynnydd o **Rhydderch ap Iestyn** (bu farw 1033; y mae taflen o'r tylwyth ar t. 771 o **Lloyd, A History of Wales**, a hwylus fydd crynhoi ei hanes yma, dan enw Morgan ap Hywel.

Liaddwyd **Caradog ap Gruffudd**, wŷr Rhydderch, ym mrwydr Mynydd Cam (1081); erbyn 1140 clywir am fab hwnnw, OWAIN ap CARADOG, yng Ngwynllwg; ac yn 1154 cydnabuwyd ei fab yntau, MORGAN ab OWAIN, gan Harri II yn arglwydd Caerleon. Hwn oedd y Morgan a laddwyd gan **Ifor Bach** yn 1158. Dilynwyd ef gan ei frawd IORWERTH ab OWAIN. Yn 1171 syrthiodd Iorwerth rywsut dan wg y brenin, a cholodd Gaerlleon. Pan oeddid ar fin cymodi rhyngddynt (1172), lladdwyd OWAIN, mab Iorwerth, gan wŷr **iarll Caerloyw**. Ffyrnigodd Iorwerth, a'i fab arall HYWEL, yn erbyn y brenin a'r Normaniaid, a chan fanteisio ar 'wrthryfel' mawr 1173, cipiasant Gaerlleon a chestyll eraill yng Ngwent; a serch iddynt golli eu gafael ar y cestyll erbyn 1175, bu eu cyfeillgarwch â'r **arglwydd Rhys** yn gymaint amddiffyn iddynt nes i'r brenin ddychwelyd Caerlleon iddynt; yn 1184-5 yr oedd Hywel yn un o'r chwe gŵr a ddaliai gestyll ym Morgannwg a Gwent yn enw'r brenin. Tua 1210 y dilynwyd Hywel gan ei fab MORGAN ap HYWEL. Fel y gwelir yn yr ysgrif ar deulu **Marshal**, llusgwyd Morgan i mewn i helyntion y teulu hwnnw; colodd gastell Caerlleon i **William Marshal** yn 1217, a gwrthododd meibion **Marshal** ei edfryd iddo (yr oedd serch hynny'n parhau gan mwyaf mewn meddiant o gastell Machen) - yn wir, bu Morgan farw ychydig cyn 15 Mawrth 1248, heb byth gael castell Caerlleon yn ei ôl. Dilynwyd ef gan ei wŷr, MAREDUDD (mab i'w ferch Gwerfyl), a fu farw yn 1270 (gweler yr ysgrif ' **Morgan**, ' arweinydd gwrthryfel yn 1294-5). Treiglodd yr arglwyddiaeth (gyda rhai o feddiannau eraill y **Clariaid** yng Ngwent) i Elisabeth, merch ieuengaf y **Gilbert de Clare** a fu farw yn 1314 ac felly yn y pen draw i deulu **Mortimer**.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest*(London 1911), Cyf. I (mynegai)

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest*(London 1911), Cyf. II (mynegai)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q15391789

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n **tudalen codi arian** am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Jenkins, R. T., (1953). MORGAN ap HYWEL (fl. 1210-48), arglwydd Cymreig arglwyddiaeth Gwynllwg neu Gaerlleon-ar-Wysg. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-MORG-APH-1210>

Canolfan

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government